**BBC Cymru**

**HYDREF - TACHWEDD**

# Yma i Chi - Maesteg!



Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae BBC Cymru wedi bod yn cynnal ymgyrch o'r enw **Yma i Chi!** Rydym wedi bod i **Ddinbych**, **Butetown**, **Caerfyrddin**, **Aberdâr**, **Ynys Môn**, **Hwlffordd**, **Casnewydd**, **Llambed**, **Bae Colwyn** a'r **Drenewydd**, ac yn ystod mis Hydref a Thachwedd, rydym ym **Maesteg**. Gyda chymorth pobl leol, rydym wedi bod yn trefnu nifer o weithgareddau, digwyddiadau a sioeau fydd yn cael eu cynnal mewn lleoliadau yn yr ardal.

**MAE POB DIGWYDDIAD AM DDIM.**

Diolch arbennig i'r grŵp ymgynghorol lleol. Rydym wedi bod yn cydweithio â'r grwp yn ystod y misoedd diwethaf er mwyn creu'r amserlen yma o ddarllediadau a digwyddiadau.

BBC radiocymru

**93.4/96.8 FM**
**bbc.co.uk/radiocymru**

**Llinell Wybodaeth BBC Cymru 08703 500 700**   **bbc.co.uk/cwmllynfi**

## Cofiwch wrando...

**BBC Radio Cymru 93.4/96.8FM**
**bbc.co.uk/radiocymru**

**BBC Radio Wales 882AM**
**bbc.co.uk/radiowales**

**SADWRN 6 HYDREF**
**Showtime**
BBC Radio Wales
10-11pm
**Beverley Humphreys** sy'n sgwrsio ag aelodau o Gymdeithas Operatig Amatur Maesteg wrth iddyn nhw ymarfer ar gyfer eu cynhyrchiad o Oklahoma.

**SUL 7 HYDREF**
**Beti a'i Phobol**
BBC Radio Cymru
9.35-10.15am
Yr actores Gymraeg o Faesteg **Gwenyth Petty** fydd y gwestai heddiw, a chawn glywed ei dewis o gerddoriaeth yng nghwmni **Beti George**.

**MAWRTH 9 HYDREF**
**wales@work**
BBC Radio Wales
6.30-7pm
**Nick Servini** a'i westeion sy'n trafod y materion busnes diweddaraf.

**SUL 14 HYDREF**
**Dei Tomos**
BBC Radio Cymru
5.30-6.45pm
Pobl ardal Maesteg a'u hanesion fydd ymhlith y rhai yn cadw cwmni i **Dei** heno.

**IAU 1 TACHWEDD**
**Radio Wales Arts Show**
BBC Radio Wales
6.30-7pm
Yr actores **Gwenyth Petty** sy'n sôn am dreftadaeth gelfyddydol bro ei mebyd, Maesteg. Bydd yn sgwrsio â'i merch, y ddarlledwraig **Sara Edwards**, ynglyn â sut y dylanwadodd yr ardal ar ei gyrfa.

**SUL 4 TACHWEDD**
**Oedfa'r Bore**
BBC Radio Cymru
11.30am-12pm
Pobl Maesteg sy'n rhannu eu profiadau yn y rhifyn arbennig yma o **Oedfa'r Bore**.

Mae ardal Maesteg yn arbennig oherwydd mae modd i chi glywed dwy raglen wahanol rhwng 8.30am a 10.30am o ddydd Llun i ddydd Gwener! Gan ddibynnu ar dderbyniad a lleoliad eich set radio chi, ar donfedd 96.8 FM gallwch glywed rhaglen **Jonsi** neu ar 93.4 FM (trosglwyddydd Croeserw) gallwch glywed rhaglen **Grav** o'r Gorllewin. Bydd **Ray Gravell** yn darlledu o ganol Maesteg ar **11 Hydref** - cofiwch alw heibio!

Ym mis Hydref bydd **C2** Radio Cymru - sef ein gwasanaeth gyda'r nos o ddydd Llun i ddydd Gwener - yn dechrau ar batrwm darlledu newydd gyda **Magi Dodd** a **Glyn Wise** yn diddanu rhwng 8pm a 10pm, **Huw Stephens**, **Lisa Gwilym** neu **Rhys Mwyn** rhwng 10pm ac 11pm a **Dafydd Du** bob nos o 11pm tan 1am. Os y'ch chi'n ifanc eich ysbryd - cofiwch wrando.

# Ry'ni Yma i Chi ym Maesteg - dewch i ymuno â ni!

Rwy'n falch dros ben fod BBC Cymru **Yma i Chi** ym Maesteg. Mae Maesteg, gan gynnwys Cwm Llynfi i gyd, yn le gwych - yn llawn pobol ddiddorol gydag ymdeimlad dwfn o bwysigrwydd cymuned. Rwy'n falch o ddweud mai dyma yw nghartre ac yn rhywle rwy'n dal i ymweld ag e yn gyson. Yn ystod y blynyddoedd ers i mi gael fy magu yma ac ers i mi fod yn yr ysgol, mae Cwm Llynfi wedi newid yn sylweddol. Does dim pyllau glo mwyach wrth gwrs a mae'r bryniau yn wyrdd ac yn ir.

Un o'r pethe gorau am Faesteg yw y bu ganddi erioed ymwybyddiaeth o'i lle mewn hanes, yn rhannol oherwydd y diwydiant glo ond hefyd oherwydd ei thraddodiad diwylliannol a chwaraeon.

Dros yr wythnosau nesa - trwy gyfrwng BBC Cymru - rwy'n sicr y daw miloedd o bobl trwy Gymru i ddysgu mwy am y lle arbennig hwn.



Menna

Menna Richards, Rheolwr BBC Cymru

**MERCHER 3 HYDREF**
**Cant y Cant**
Clwb Rygbi Maesteg – Yr Hen Blwyf
7.30pm
Ymunwch yn yr hwyl wrth i **Huw Llywelyn Davies** geisio cadw trefn ar y capteiniaid a'r panelwyr gwadd **Emyr Lewis** a **Deiniol Jones** yn y rhifyn arbennig yma o gwis chwaraeon Radio Cymru. Ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru am docynnau rhad ac am ddim. I'w darlledu ar Radio Cymru ddydd Gwener 5 Hydref am 6.30pm.

**GWENER 5 HYDREF – SADWRN 6 HYDREF**
**BBC Blast**
Canol Tref Maesteg
**Os ydych chi rhwng 13 ac 19 oed, cofiwch am y gweithdai rhad ac am ddim ar gerbyd BBC Blast sydd ar ei ffordd i Faesteg.**
Mae **BBC Blast** yn annog pobl ifanc ledled y DU i gymryd rhan yn y celfyddydau creadigol, gan roi profiad unigryw iddyn nhw o weithio gyda phobl broffesiynol ym myd animeiddio, dawns, gweithdai sgwennu, teledu a llawer mwy. I gadw'ch lle ar un o'r gweithdai, ewch i wefan BBC Blast yn **bbc.co.uk/blast/ontour**

**MAWRTH 9 HYDREF**
**Gweithdy Newyddion**
Swyddfa BAVO, Commercial Street, Maesteg
9.30am-12.30pm
Ydy'ch sefydliad chi angen help i hyrwyddo'i hun yn y cyfryngau? Os felly, bydd rhai o uwch-newyddiadurwyr BBC Cymru wrth law i roi cymorth ar wahanol agweddau – dod o hyd i straeon, llunio datganiadau i'r wasg a gwneud cysylltiadau yn y cyfryngau. Am fwy o wybodaeth neu i gofrestru, ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru.

**IAU 11 HYDREF**
**Grav**
BBC Radio Cymru
Tu allan i Neuadd y Dref, Maesteg
8.30-10.30am
Ymunwch â **Ray Gravell** a'i westeion wrth iddo ddarlledu i wrandawyr y Gorllewin o Faesteg. I glywed y rhaglen ym Maesteg ei hun, bydd angen i chi sicrhau eich bod yn gwrando ar Radio Cymru ar donfedd 93.4 FM.
(Rhaglen Jonsi fydd i'w chlywed ar 96.8FM).

**GWENER 12 HYDREF**
**Taro'r Post**
BBC Radio Cymru
Ystafell Gymunedol (BAVO), Commercial Street, Maesteg
1-2pm
Daw rhaglen drafod boblogaidd Radio Cymru yn fyw o'r ardal gan roi sylw i rai o brif faterion a phynciau llosg y fro – a chyfle i chi ddweud eich dweud.

**SUL 14 HYDREF**
**Diwrnod Agored BBC Cymru**
Canolfan Chwaraeon Maesteg
10am-4.30pm
Dewch i gwrdd â'r **Dalek**, darllenwch y newyddion, cyflwynwch y tywydd gyda **Derek Brockway**, rhowch gynnig ar sylwebu chwaraeon gyda **Garin Jenkins** a dewch i weld y **Bobinogi** ar yr awr rhwng 11am a 4pm.
**Mynediad am ddim!**

**Alun Thomas**
BBC Radio Cymru
Canolfan Chwaraeon Maesteg
10.15-11.30am
Bydd **Alun** yn dianc o'i stiwdio arferol ar fore Sul er mwyn bachu ar y cyfle i sgwrsio â rhai o drigolion Maesteg a'r pentrefi cyfagos.

**Money for Nothing**
BBC Radio Wales
Canolfan Chwaraeon Maesteg
2-4.30pm
Prynhawn o adloniant yn fyw o'r **Diwrnod Agored** gydag **Owen Money**

**Celebration**
Eglwys San Mihangel a'r Holl Angylion, Maesteg
5pm
Ymunwch â'r gynulleidfa i recordio rhaglen addoli Radio Wales. I'w darlledu ar Radio Wales ddydd Sul 21 Hydref a 2 Rhagfyr am 8am.

**MERCHER 17 HYDREF**
**I'll Show You Mine**
Clwb Rygbi Maesteg - Yr Hen Blwyf
7.30pm
Noson o gerddoriaeth fyw, adloniant a hwyl yng nghwmni **Frank Hennessy**, **Amy Wadge** a'u gwesteion. Ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru am docynnau rhad ac am ddim. I'w darlledu ar Radio Wales ddydd Sul 21 Hydref am 8pm.

**IAU 18 HYDREF**
**Coal House**
Bws BBC Cymru, Commercial Street
10am-4pm
Oes gyda chi stori dda i'w rhannu ynglyn â byw mewn cymuned lofaol? Os felly, ry'n ni am glywed wrtho chi.
Yn ystod yr hydref, bydd cyfres newydd ar BBC One Wales o'r enw **Coal House**, yn dilyn tri o deuluoedd wrth i'r cloc gael ei droi'n ôl i feysydd glo De Cymru yr 1920au. Bydd 'na ddim dŵr, dim gwres canolog, dim car, dim meicrodon a dim teledu.
Os oes stori neu lun yr hoffech eu rhannu â ni, galwch draw i **Fws BBC Cymru** yn Commercial Street neu e-bostiwch **coalhouse@bbc.co.uk**

**Roy Noble**
BBC Radio Wales
Bws BBC Cymru, Commercial Street
2-4pm
Dewch draw i gadw cwmni i **Roy** wrth iddo ddarlledu ei raglen ddyddiol yn fyw o Faesteg.

**Scrum V on Radio Wales**
BBC Radio Wales
Clwb Celtic Maesteg
7-8pm
Mae Cwpan Rygbi'r Byd bron ar ben, felly bydd digon i'w drafod ar **Scrum V on Radio Wales** heno o Glwb Celtic Maesteg.

**Extra Time**
Clwb Celtic Maesteg
8.30pm
Ymunwch â **Frances Donovan**, **Owen Money** a **Phil Steele** wrth iddyn nhw brofi gwybodaeth rhai o glybiau chwaraeon yr ardal. I'w darlledu ar Radio Wales.

**SADWRN 20 HYDREF**
**Gweithdy Sgiliau Radio**
Coleg Maesteg
10am-3pm
Os oes diddordeb gyda chi mewn gweithio ym myd radio neu am wybod mwy ynglyn â chynhyrchu rhaglenni radio, ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru i gadw'ch lle.

**SADWRN 27 HYDREF**
**Look Up Your Genes**
Llyfrgell Maesteg
9.30am-4pm
Dewch i'r diwrnod hel achau er mwyn rhoi cychwyn ar ddarganfod eich coeden deuluol gyda thîm y rhaglen boblogaidd ar Radio Wales. I gadw'ch lle, ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru.

**LLUN 29 HYDREF – IAU 1 TACHWEDD**
**Gweithdy Straeon Digidol**
Canolfan Fenter Llynfi
9.30am-5.30pm
Hoffech chi ddweud eich stori mewn ffordd newydd a chyffrous? Bydd y tîm Cipolwg ar Gymru yn cynnal gweithdy Saesneg pedwar diwrnod lle gallwch chi greu eich stori ddigidol eich hun. Am fanylion ar sut i gymryd rhan, ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru.
Dyddiad cau: **Dydd Iau 18 Hydref**

**MERCHER 31 HYDREF**
**The Sarah Jane Adventures – Dangosiad**
Neuadd y Dref Maesteg
Drysau'n agor am 2pm
Dechrau am 2.30pm
Ymunwch â ni am ddangosiad arbennig o **The Sarah Jane Adventures**, cyfres ddrama newydd CBBC gan y tîm a greodd **Doctor Who**. Wrth i hen gyfaill y Doctor, Sarah Jane, ymuno â Maria, Luke a Clyde, mae'r pedwar yn wynebu byd o beryglon ac angenfilod o'r gofod. **Mynediad trwy docyn yn unig.** Ffoniwch **08700 13 18 12**

## Ar y sgrîn fach...

**GWENER 9 TACHWEDD**
**Maesteg Lives**
BBC 2W
7-7.30pm
Blas o fywyd Maesteg trwy lygaid y trigolion.

**SADWRN 17 TACHWEDD**
**Big Welsh Challenge – Diwrnod y Dysgwyr**
Coleg Maesteg
9.30am
Os ydych yn newydd i'r iaith neu am wella eich Cymraeg, dewch draw am ddiwrnod llawn o weithgareddau. Ymunwch â ni am ddosbarthiadau a gweithdai Cymraeg – a bydd rhai o enwau cyfarwydd BBC Cymru yno i'ch helpu chi hefyd! Cofrestrwch nawr drwy e-bostio **learnwelsh@bbc.co.uk** neu ffoniwch llinell wybodaeth BBC Cymru.

## Cliciwch ar...

**bbc.co.uk/cwmllynfi**

Cliciwch ar y wefan i ddarllen cyflwyniad i hanes yr ardal, i ddysgu am chwedl leol, i weld lluniau lleol ac i ddarllen straeon difyr am drigolion a digwyddiadau'r fro. Mae cyfle i chi hefyd ddweud eich dweud am Gwm Llynfi ac anfon eich straeon a'ch lluniau chi aton ni.

Bu tîm y wefan yn gweithio gyda phlant Ysgol Gynradd Gymraeg Cynwyd Sant yn ddiweddar, lle bu disgyblion blwyddyn 6 yn darlunio'r chwedl 'Y Ferch o Gefn Ydfa' ac mae eu lluniau i'w gweld ar y wefan.

I wybod mwy am weithgareddau'r BBC yn ardal Maesteg ym mis Hydref a Thachwedd, edrychwch ar **bbc.co.uk/cwmllynfi** am restr lawn o ddigwyddiadau.

BBC National Orchestra of Wales / Cerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC

Yn ystod y cyfnod, bydd aelodau o Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC yn ymweld â Chanolfan Ddydd Cwm Calon yn ogystal â chynnal gweithdai cerddoriaeth gyda disgyblion ysgolion cynradd yr ardal.

**08703 500 700**
Hyd at 6c y funud yw cost galwadau o linell BT (gall amrywio gyda chwmniau eraill a ffonau symudol) a gellir eu recordio at ddibenion hyfforddiant.
Os oes gennych anabledd neu anghenion mynediad rhowch wybod i ni ar **08703 500 700**

Maesteg Brochure 21/9/07 10:51 am Page 1